# Love 2 Walk

## Gŵyl Cerdded 2024

22 - 30 Mehefin 2024

## Gwybodaeth Gyffredinol

- Mae gan bob un o'n teithiau cerdded ni dywyswyr gwybodus a phrofiadol ac maen nhw am ddim.
- Does dim angen archebu lle ar gyfer y teithiau cerdded ond os ydych chi'n dymuno archebu gallwch wneud hynny ar e-bost, ar Facebook neu dros y ffôn.





## Canllaw cyflym i'r graddfeydd

**Hawdd** – addas i bawb heb unrhyw broblemau ffitrwydd neu symudedd difrifol, efallai y bydd angen codi cadeiriau gwthio dros rwystrau bach

**Cymedrol** – gall gynnwys llwybrau serth a chefn gwlad agored - Esgidiau cerdded yn hanfodol

**Heriol** – angen bod yn gerddwr cefn gwlad profiadol gyda lefel dda o ffitrwydd

## Cynghorion Hanfodol

- Mae sanau ac esgidiau cyfforddus yn hanfodol, dewiswch esgidiau sy'n codi'r sawdl ychydig ac yn cynnal y droed a gwnewch yn siŵr bod digon o le i symud bysedd eich traed
- Gwisgwch ddillad cyfforddus sy'n ffitio'n llac ac yn eich galluogi i symud yn rhydd
- Bydd gwisgo sbectol haul ac eli haul yn amddiffyn eich llygaid a'ch croen rhag pelydrau UV yr haul
- Mae cerdded yn waith sychedig felly cariwch ddŵr, yn enwedig os ydych chi'n bwriadu cerdded am fwy na hanner awr
- Dewch â rhywbeth i'w fwyta gyda chi fel bod gennych chi ddigon o egni
- Cariwch ffôn symudol gyda chi
- Dilynwch y cod cefn gwlad bob amser
- Sylwch fod cerddwyr yn cymryd rhan yn y teithiau cerdded ar eu menter eu hunain a dylent sicrhau eu bod yn heini ac yn iach ar ddiwrnod y daith gerdded.

## Cyrraedd yr ŵyl

Sut bynnag rydych chi'n bwriadu cyrraedd unrhyw un o'n teithiau cerdded gall Traveline Cymru wneud eich cynllunio ychydig yn haws gyda gwybodaeth am deithio ar fws, trên, awyren a fferi. Ewch i Traveline Cymru neu ffoniwch 0871 200 22 33.

Mae'n bosibl y bydd rhaid talu am barcio, gwiriwch cyn i chi deithio.

Mae'r amseroedd gorffen yn fras ac yn ganllaw yn unig.

## Ffotograffau

Gall ffotograffwyr proffesiynol neu amatur fod yn bresennol ar eich taith gerdded. Ystyrir bod caniatâd ar gyfer ffotograffau'n cael ei roi pan fyddwch yn ymuno â'r daith gerdded. Fodd bynnag, cofiwch roi gwybod i arweinydd y daith gerdded neu'r ffotograffydd ar y diwrnod os byddwch yn dewis peidio â bod yn rhan o unrhyw ffotograffau. Efallai y bydd y lluniau'n cael eu defnyddio ar-lein neu ar gyfer cyhoeddusrwydd yn y dyfodol.

## Y Cod Cefn Gwlad

**Parchu pobl eraill**

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch giatiau ac eiddo fel rydych yn dod o hyd iddynt a dilynwch y llwybrau oni bai fod mynediad ehangach ar gael

**Gwarchod yr amgylchedd naturiol**

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol

**Mwynhau'r awyr agored a chadw'n ddiogel**

- Cynlluniwch ymlaen llaw a byddwch yn barod
- Dilynwch gyngor ac arwyddion lleol

## Teithiau cerdded hunan-dywys

Methu dod ar y diwrnod a'r amser ar gyfer y daith gerdded ar yr amserlen? Dim problem, mae gennym ni deithiau cerdded hunan-dywys y gallwch chi eu cwblhau yn eich amser eich hun. Mae llwybrau syml sy'n hawdd eu dilyn os ydi eich sgiliau mapio fymryn yn rhydlyd.

## Gwybodaeth ac archebu

**love2walk@bridgend.gov.uk**
**facebook.com/love2walk**
**01656 642081**

Her Iechyd Cymru / Health Challenge Wales

Bactif – LLES EGNÏOL • ACTIVE WELLBEING

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council

# Love2Walk

## Gŵyl Cerdded 2024

22 - 30 Mehefin 2024

| Diwrnod ac amser | Enw a lleoliad | Manylion | Gradd |
|---|---|---|---|
| Dydd Sadwrn 22 Mehefin 10am-12pm | Taith gerdded cadeiriau LAF Llwybr Treftadaeth Goetrehen | Dechreuwch yr Ŵyl Gerdded drwy ymuno ag aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i fwynhau'r golygfeydd ar hyd y Llwybr Treftadaeth o amgylch Goetrehen | Cymedrol |
| Dydd Sul 23 Mehefin dechrau am 9.45am | Taith Gerdded y Ramblers Cysylltwch am fanylion ymuno – www.bridgendramblers.org | Sain Ffraid – Taith Gerdded 5 milltir yn fras | Cymedrol |
| Dydd Llun 24 Mehefin 10.30-11.30am | Arwerthiannau Defaid Melin Ifan Ddu | Un daith o'n rhaglen o deithiau cerdded wythnosol cyfeillgar, sy'n digwydd ar yr un diwrnod ac amser bob wythnos. Cyfle i fanteisio ar y llwybr beicio ag arwyneb ar hyd llawr y dyffryn | Cymedrol |
| Dydd Llun 24 Mehefin 3-4pm | Canolfan Bywyd Ogwr | Un daith o'n rhaglen o deithiau cerdded wythnosol cyfeillgar, sy'n digwydd ar yr un diwrnod ac amser bob wythnos. Dechrau arni i fanteisio ar y llwybr beicio ag arwyneb ar hyd llawr y dyffryn | Cymedrol / Nordig |
| Dydd Llun 24 Mehefin 5.30-7pm | Taith gerdded ar ôl gwaith | Cyfarfod yn Ardal Chwarae'r Plant yng Nghaeau Newbridge | Hawdd |
| Dydd Mawrth 25 Mehefin 10-11.30am | Tro Bach Gymdeithasol | Cyfarfod ym Maes Parcio Tesco Maesteg | Cymedrol |
| Dydd Mawrth 25 Mehefin 2-3pm | Taith Gerdded Archwilwyr Parc Slip | Cyfarfod yn y Maes Parcio a mwynhau taith gylch o amgylch y warchodfa natur leol yma. Gall fod yn fwdlyd os yw'r tywydd wedi bod yn wlyb | Cymedrol / Nordig |
| Dydd Mawrth 25 Mehefin 2.30-6pm | Sgwâr Melin Ifan Ddu i Fynydd yr Gaer | Chwilio am daith gerdded hirach a'r cyfle i fwynhau'r golygfeydd o amgylch Melin Ifan Ddu? Os felly, mae'r daith yma ar eich cyfer chi | Cymedrol |
| Dydd Mercher 26 Mehefin, 1-2pm | Caeau Newbridge | Un daith o'n rhaglen o deithiau cerdded wythnosol cyfeillgar, sy'n digwydd ar yr un diwrnod ac amser bob wythnos | Cymedrol / Nordig |
| Dydd Mercher 26 Mehefin, 3-4.30pm | Taith Gerdded Fforest Cwm Garw | Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Cwm Garw. Un daith o'n rhaglen o deithiau cerdded archwilio, sy'n digwydd bob wythnos ar yr un diwrnod ac amser ond mewn llefydd gwahanol. Gall ychydig o'r darnau serth fod yn fwdlyd os yw'r tywydd wedi bod yn wlyb | Cymedrol / Nordig |
| Dydd Mercher 26 Mehefin, dechrau am 6pm | Taith Gerdded y Ramblers Cysylltwch am fanylion ymuno – www.bridgendramblers.org | Newton – Tua 4 milltir | Cymedrol |
| Dydd Iau 27 Mehefin 11am-12pm | Taith Gerdded Het Haul Porthcawl | RNLI Porthcawl. Cyfarfod y tu allan i'r siop gofroddion. Nawr bod y tywydd yn cynhesu'n braf chwiliwch am eich het haul orau a galwch heibio i ymuno | Hawdd – Cyfeillgar i Ddementia |
| Dydd Iau 27 Mehefin dechrau am 10.30am | Taith Gerdded y Ramblers Cysylltwch am fanylion ymuno – www.bridgendramblers.org | Sain Ffraid – Tua 3 milltir | Cymedrol |
| Dydd Gwener 28 Mehefin, 10-11.30am | Tro Bach Gymdeithasol | Cyfarfod ym Maes Parcio Rygbi Porthcawl | Cymedrol |
| Dydd Gwener 28 Mehefin, 5.30-6.30pm | Taith gerdded iechyd Maes Parcio Pwll Nofio Pencoed | Taith Gerdded Hawdd ar arwynebau tarmac, taith gerdded gylch yn dychwelyd i'r man cychwyn | Hawdd – Cyfeillgar i Ddementia |
| Dydd Sadwrn 29 Mehefin 10am-12pm | Dolen Black Rocks | Llwybr Glan y Môr sy'n Gyfeillgar i Deuluoedd<br>Taith gerdded drwy Dwyni Newton i Draeth Newton ac ar hyd ymyl y dŵr, gan droelli drwy Black Rocks | Hawdd (rhai darnau ar dywod) |
| Dydd Sul 30 Mehefin 9.45am | Taith Gerdded y Ramblers Cysylltwch am fanylion ymuno – www.bridgendramblers.org | Margam – Tua 5.5 milltir | Heriol |

• Mae'n bosibl y bydd angen talu am barcio, gwiriwch cyn i chi deithio •
• Mae'r amseroedd gorffen yn fras ac yn ganllaw yn unig •
• Nid yw archebu lle yn hanfodol •

## Gwybodaeth ac archebu

love2walk@bridgend.gov.uk • facebook.com/love2walk • 01656 642081